**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Pwyllgor y Rhaglen Graffu

**Cyfarfod aml-leolaid - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 19 Rhagfyr 2023 am 4.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Cynghorwyr** | **Cynghorywyr** | **Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| M Jones | W G Lewis | P N May |
| F D O'Brien | S Pritchard | T M White |

**Aelod(au) Cyfetholedig Statudol**

| | |
|---|---|
| Beth Allender | Elizabeth Lee |

**Cynghorwyr sy'n Aelod(au) Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| C A Holley | S M Jones |
| P R Hood-Williams | L R Jones |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Matt Callaghan | Rheolwr Adfywio Economaidd |
| Lee Cambule | Rheolwr y Gwasanaeth Trechu Tlodi |
| Amy Hawkins | Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Threchu Tlodi |
| Phil Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Clare James | Uwch-reolwr Datblygu Economaidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Paul Relf | Rheolwr Adfywio Economaidd Strategol |
| Anthony Richards | Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'i Atal |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Mark Wade | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Stephen Williams | Rheolwr Adfywio Economaidd |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd A Anthony - Aelod y Cabinet dros Les
Y Cynghorydd Robert Francis-Davies – Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth
Y Cynghorydd H Gwilliam - Aelod y Cabinet dros y Gymuned (Cefnogaeth)

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Cynghorydd(wyr): A Davis ac E W Fitzgerald

## 48 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 49 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd unrhyw bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 50 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2023 fel cofnod cywir.

## 51 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Dim.

## 52 Adroddiad ar Gyflawni'r Flaenoriaeth Gorfforaethol Trechu Tlodi a Galluogi Cymunedau

Darparodd Aelod y Cabinet dros Les adroddiad a oedd yn nodi cynnydd dros y 12 mis diwethaf o ran cyflawni'r Flaenoriaeth Gorfforaethol Trechu Tlodi a Galluogi Cymunedau. Yn fersiwn ddiweddaraf y Cynllun Corfforaethol, diwygiwyd yr Amcan i ychwanegu 'Galluogi Cymunedau' i gydnabod dull sy'n seiliedig ar gryfderau lle gellir manteisio ar gryfderau unigolion, cymunedau a rhwydweithiau i helpu i fynd i'r afael â thlodi. Roedd yn cyflwyno tystiolaeth, mewnwelediadau a deallusrwydd i ddangos y cyfraniadau a wnaed wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon ar gyfer y cyngor, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Roedd yn ymdrin â'r heriau presennol, gan gynnwys effaith yr argyfwng costau byw, ac ymateb y cyngor.

Gwnaeth Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Threchu Tlodi, gyda chymorth Rheolwr y Gwasanaeth Trechu Tlodi a'r Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'i Atal, drafod yr adroddiad gan dynnu sylw at agweddau penodol, gan gynnwys 9 Cam y Cynllun Corfforaethol a'r Ffordd Ymlaen.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Fframwaith Perfformiad - manylwyd ar y cynnydd a wnaed o ran datblygu Fframwaith Perfformiad Trechu Tlodi strategol i ddiffinio sut mae'r amcanion, y dangosyddion, y mesurau a'r allbynnau mewn perthynas â threchu tlodi yn cyd-fynd â chanlyniadau. Nodwyd bod rhywfaint o ddata'n bodoli, fodd bynnag mae angen gwneud gwaith pellach i gasglu'r data 'profiad byw' mwy cymhleth. Roedd

y Pwyllgor yn awyddus i gael mwy o eglurder ynghylch yr hyn y mae dangosyddion yn ei olygu o ran effaith ar bobl a sut mae hyn yn cyfateb i lai o dlodi, a chanlyniadau o dargedau a nodwyd. Nodwyd y cymhlethdodau trechu tlodi, gyda heriau o ran adnewyddu data, canlyniadau fframwaith perfformiad, darparu profiadau bywyd go iawn a datblygu ffyrdd gwahanol o gyflwyno tlodi.

- Diffiniad o dlodi – er taw'r Safon Isafswm Incwm i berson sengl gael safon byw derbyniol yn 2023 oedd £29,500 yn ôl Sefydliad Joseph Rowntree, nid oedd unrhyw ffynhonnell unigol o dystiolaeth a oedd yn diffinio tlodi. Nid oedd y diffiniad o dlodi yn gysylltiedig ag incwm yn unig ac roedd ehangu'r diffiniad yn rhan o waith parhaus.

- Data Tlodi - cafwyd trafodaeth ynghylch y gwahanol ffynonellau data, gan gynnwys sut y defnyddir Mynegai Amddifadedd Cymru ac a fu llawer o newid dros amser; ac ynghylch yr hyn y gellir ei ddysgu gan offeryn ar-lein cenedlaethol Dangosfwrdd Data Archwilio Cymru sydd wedi'i gynllunio i gefnogi'r broses benderfynu mewn cynghorau ac i wella sut maent yn targedu eu gwaith.

- Costau Byw – roedd y cyngor wedi bod yn monitro effeithiolrwydd a manteision grantiau 'Costau Byw' i unigolion a sefydliadau, er mwyn sicrhau ei fod wedi helpu'r rheini yr oedd angen help arnynt.

- Adeiladu Asedau Cymunedol – Cyfleoedd gyda Phrofiad Gwaith a Gwirfoddoli. Trafodwyd enghreifftiau. Ar hyn o bryd mae ysgolion yn gwneud atgyfeiriadau i Amgueddfa Abertawe am gyfleoedd Profiad Gwaith a Gwirfoddoli. Fodd bynnag, mae gwaith ar y gweill i symleiddio'r broses ar draws y cyngor, gyda datblygiad Strategaeth Gwirfoddoli Gorfforaethol.

- Argymhellion Adroddiad 'Amser am Newid - Tlodi yng Nghymru' Archwilio Cymru - roedd cynllun gweithredu wedi ei ddatblygu ac ystyriwyd bod Abertawe'n gwneud yn dda. Cafodd Trechu Tlodi ei gynnwys yn y Fframwaith Perfformiad ac roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid aml-flwyddyn. Roedd y rhan fwyaf o'r argymhellion yn cael eu cyflawni.

- Datblygu Sgiliau - y ffocws ar wella'r ffordd rydym yn helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau, eu cymwysterau a'u rhagolygon cyflogaeth fel y gallant ddod o hyd i swyddi ystyrlon sy'n talu'n dda a gwella'u rhagolygon ar gyfer y dyfodol. Sicrhau bod gan ddisgyblion ysgol y sgiliau cywir ar gyfer y gweithle - nodwyd hyn fel y flaenoriaeth uchaf ac mae sawl prosiect ar y gweill ar draws Abertawe gyda swyddogion dynodedig. Fodd bynnag, nodwyd bod Abertawe'n gwneud yn dda wrth gael pobl i mewn i waith.

- Targedau 2023/24 – Pryder ynghylch Statws Coch Melyn Gwyrdd mewn perthynas â Digartrefedd – er gwaethaf cydweithio gyda chydweithwyr yr Adran Tai, roedd digartrefedd wedi cynyddu ac roedd hyn yn parhau i fod yn her.

- Strategaeth Trechu Tlodi adnewyddedig – nodwyd ei bod ar y trywydd iawn i'w chyhoeddi erbyn mis Mawrth 2024 yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i gael cyfle i wneud sylwadau ar y Strategaeth ddrafft.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch sylwadau a wnaed gan Brif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, mewn perthynas â Thlodi Plant lle dywedodd ei fod yn siom nad yw mwy yn cael ei wneud i fynd i'r afael â thlodi plant ers datganoli, dywedodd Aelod y Cabinet dros Les fod mynd i'r afael â Thlodi Plant yn ddewis gwleidyddol ac, yn ei barn hi, nid oedd rhai materion mor bwysig â Thlodi Plant. Teimlai y byddai Gweinidog ymroddedig â chyfrifoldeb dros Dlodi Plant yn newid cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet dros Les a'r swyddogion am eu mewnbwn.

**Penderfynwyd** y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet dros Les gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y Pwyllgor.

## 53 Craffu ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelodau'r Cabinet - Cymorth i Fusnesau (y Cynghorydd Robert Francis-Davies, Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth).

Darparodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn tynnu sylw at waith 'Busnes Abertawe', a lansiwyd ym mis Ebrill 2021, sef gwasanaeth cymorth pwrpasol gyda'r nod o wella ansawdd y cymorth i fusnesau yn Abertawe a nifer y bobl sy'n ei ddefnyddio. Cyflawnwyd y gwaith hwn gan Dîm Adfywio Economaidd y cyngor.

Esboniodd yr Aelod Cabinet, gyda chymorth swyddogion perthnasol, yr adroddiad i'r Pwyllgor gan dynnu sylw at agweddau penodol, gan gynnwys meysydd gwaith allweddol (cyfathrebu, digwyddiadau, cymorth grant, ymgysylltu â phartneriaid), Rheolaeth ac Adnoddau, gwelliannau/effaith a'r rhaglen ar gyfer y dyfodol.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Grantiau Busnes – trafodwyd effaith a llwyddiant grantiau busnes a'u heffaith, er enghraifft, ar Farchnad Abertawe. Nodwyd bod lefel uchel o ddeiliadaeth (94%) ym Marchnad Abertawe ar hyn o bryd, a bod nifer o fusnesau wedi cael mynediad at gyngor a chymorth gan 'Busnes Abertawe'. Amlygwyd manylion y mentrau presennol (prosiect Gardd y Farchnad) a llwyddiant Marchnad Abertawe wrth ennill y teitl Marchnad Dan Do Orau Prydain.

- Busnes Abertawe – trafodaeth am yr effaith y mae'r gwasanaeth newydd hwn wedi'i chael. Nodwyd bod y gwasanaeth cymorth newydd wedi llwyddo i greu un pwynt cyswllt symlach i fusnesau ac roedd cyfathrebu ac ymgysylltu wedi gwella. Er bod gwaith yn parhau, mae'r effaith yn amlwg.

- Parc Felindre – er nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â gwaith 'Busnes Abertawe', dywedodd swyddogion wrth y Pwyllgor fod gwaith yn mynd rhagddo i farchnata'r safle'n rhagweithiol. Cynhelir cyfarfodydd dyddiol a misol i fonitro

ymholiadau. Cadarnhaodd swyddogion nad oedd unrhyw rwystrau i unrhyw ddarpar ddatblygwr (e.e. ynghylch gwasanaethau ar y safle) a bod y safle'n cael ei farchnata'n ddwys.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth a swyddogion am eu mewnbwn.

**Penderfynwyd** bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth i adlewyrchu ar y drafodaeth a rhannu barn y Pwyllgor.

## 54 Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwasanaethau Oedolion (y Cynghorydd Sue Jones, Cynullydd).

Darparodd y Cynghorydd Sue Jones adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor ynghylch gwaith / gweithgareddau Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwasanaethau Oedolion.

**Penderfynwyd** nodi Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwasanaethau Oedolion.

## 55 Aelodaeth o Baneli a Gweithgorau Craffu

**Penderfynwyd** cytuno ar aelodaeth y Paneli a'r Gweithgorau, fel yr adroddwyd.

## 56 Rhaglen Waith Craffu

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad rheolaidd ar y Rhaglen Waith Craffu ar gyfer 2023/24, y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ei fonitro.

Roedd y prif eitemau ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 16 Ionawr yn cynnwys:

- Craffu ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelodau'r Cabinet: Sesiwn Holi ac Ateb gydag Arweinydd y Cyngor / Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth.
- Camau dilynol - Gweithgor Craffu Diogelwch Ffyrdd

Cyfeiriodd y Cadeirydd at sesiwn olaf y Rhaglen Hyfforddiant a Datblygiad Craffu:

- Hunanasesiad o Graffu (dwy ran) – i'w chynnal ar 17 Ionawr (ar-lein)/23 Ionawr (Ystafell Dderbyn yr Arglwydd Faer, Neuadd y Ddinas)

## 57 Llythyrau Craffu

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y llythyrau canlynol, gan fyfyrio ar weithgarwch craffu diweddar y Pwyllgor:

- Pwyllgor – Craffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe - Llythyr at Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe (Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau)
- Pwyllgor – Craffu ar Adroddiad Cynnydd Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2021-23 - Llythyr at Aelod y Cabinet dros y Gymuned (Cymorth)
- Pwyllgor – Craffu ar Adroddiad Blynyddol – Diogelu Corfforaethol 2022/23 - Llythyr at Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal
- Pwyllgor – Camau Dilynol y Gweithgor Craffu Gwasanaethau Bysus - Llythyr at Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd

## 58 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Nesaf y Panel / Gweithgor

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfodydd nesaf y Panel/Gweithgor/Craffu Rhanbarthol fel eu bod yn ymwybodol ohonynt.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.20pm

**Cadeirydd**